

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Tal y Bont  
ar nos Iau 13 Medi, 2018 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Evan Jones.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Myfanwy Jones a Alun Thomas.

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Palmant Tan y Lôn at 'GypsyCorner'**-Cyngor Gwynedd wedi addo dechrau'r gwaith wythnos yn cychwyn 17 Medi 2018. Penderfynwyd os bydd y gwaith heb ei ddechrau byddem yn gwahodd Steffan Jones i'r cyfarfod mis nesaf.

**Rhwystrau cyflymder Tal y Bont**- angen eu paentio gan eu bod yn anodd i'w gweld gyda'r nos. Rhai wedi cael eu paentio, ond ddim pob un yn yr ardal.

**Cebi teleffon**- dim newid yn y sefyllfa.

**Lôn Ddŵr**-problem gyda gor-yrru ar waelod y ffordd sydd yn ardal 30mya. Cwynion gan bobl bron a cael eu taro lawr wrth groesi'r ffordd. Angen mesurau arafu traffig yno ac ymweliad gan yr Heddlu i fonitro. Trafodwyd rhai mesurau y gallai'r Cyngor ei weithredu.

## **5. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Torri gwair Talybont (Gorffennaf)

£80.00

Arwyddwyd gan y Cadeirydd 11/10/18 \_\_\_\_\_

Torri gwair Talybont (Awst)  
Tir a Choed

£200.00  
£330.00

## 6. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd-** llythyr gan Yr Arolygaeth Gynllunio-sydd wedi eu apwyntio i wneud ymholiad lleol cyhoeddus ynglŷn a'r is-ddeddfau (The Wales Rod and Line (Salmon and Sea Trout) Byelaws 2017- gwahoddiad i fynychu'r ymholiad ac/neu ychwanegu i'r sylwadau. Penderfynwyd bydd y Cyng. Evan Jones yn mynychu, ond bod dim angen ychwanegu at sylwadau gwreiddiol y Cyngor.

**Cyflwynwyd-**e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri-noson gyda Cyngorau Tref a Chymuned ym mis Hydref. Y Cyng. Kevin Williams, Alun Thomas a Dafydd Jones am fynychu.

**Cyflwynwyd-** taflen a poster ynglŷn a arolwg cyhoeddus Cyngor Gwynedd: Pa wasanaethau Cyngor sy'n bwysicaf i bobl Gwynedd? Cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal ym Methesda nos Fercher 19 Medi am 19.00. Y Cyng. Margaret Fernley, Evan Jones a Megan Tomos am fynychu.

## 7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Partneriaeth Ogwen-** pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig a'r waith y Partneriaeth.

**Prosiect y Carneddau-** ychydig yn siomedig bod rhai gweithgareddau wedi bod ar y Carneddau ac heb gael gwybod o flaen llaw.

## 8. Y Mynydd

Trafodwyd y canlynol:

**8.1** Y Cyngor yn hapus i gyd-weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac am ddarparu datganiad o gefnogaeth.

**8.2** Y ffigyrau wedi dod o Gaerfyrddin. Y Clerc i anfon llythyrau i'r porwyr cyn gynted a bo modd.

**8.3** Y Bugail wedi penderfynu dod yn ôl i'r swydd.

## 9. Penderfyniadau Cynllunio:

**C18/0395/21/LL**

Spinnies, Aber Ogwen, Bangor

Codi cuddfan adar a llwybr troed

**Penderfyniad-** Cais wedi ei gofrestru.

**C18/0557/21/LL**

1 Cap Coch, Tyddyn Cottage, Talybont, Bangor

Codi estyniad deulawr ochr gan gynnwys ymestyn a newid ffenestr gromen bresennol.

**Penderfyniad-** Caniatwyd, gydag amodau.

## Ceisiadau Cynllunio:

**C18/0766/21/LL** (y Cyng. Geraint Hughes wedi datgan diddordeb ac wedi gadael yr ystafell)

Cae Mawr, Talybont, Bangor

Dymchwel lolfa haul bresennol a chodi estyniad yn ei le

**Penderfyniad-** Dim gwrthwynebiad.

**NP3/21/47F**

Fferm y Gell, Llanllechid  
Adeiladu sied wartheg

**Penderfyniad**- Angen yr holl ddogfennau cyn gwneud penderfyniad

**10. Materion Brys**

**Cysylltiad Wi-fi araf** - problem gyffredinol yn y plwyf, gyda pobl sy'n gweithio o adref yn dioddef gyda cyflymder llwytho a lawrlwytho. Hefyd bod hyn yn effeithio ar werthiant tai yn yr ardal. Penderfynwyd ysgrifennu at Sian Gwenllian, Hywel Williams a Dafydd Meurig i dynnu eu sylw at y broblem.

**Eglwys Llan** - Tad John Matthews wedi cael arian i drin y coed, ond y gwaith heb ei wneud hyd yn hyn. Hefyd gwaith clirio'r gordyfiant angen ei wneud. Y Clerc i holi'r contractwr unwaith eto.

**Diffibriliwr** - y Clerc i holi am brisiau.